



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG45873

Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

**Ymateb i bobl sydd wedi dioddef
profedigaeth hunanladdiad, pobl sydd
wedi dod i gysylltiad â hunanladdiad a'r
rhai mae hunanladdiad wedi effeithio
arnynt**

Ebrill 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ar y canllawiau drafft ynghylch sut rydym yn ymateb yng Nghymru i'r rhai sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad posibl, wedi'u heffeithio gan sefyllfa o'r fath neu wedi dod i gysylltiad â sefyllfa o'r fath.

Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cysylltu

Am ragor o wybodaeth:

Y Tîm Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed
Llywodraeth Cymru
Llawr 4 Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: MentalHealthandVulnerableGroups@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Cyhoeddwyd y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: <https://www.llyw.cymru/canllawiau-drafft-ar-ymateb-i-bobl-y-mae-hunanladdiad-wedi-effeithio-arnynt>

Cynnwys

Adran 1

Cyflwyniad.....	1.1
Y cyd-destun ar gyfer newid.....	1.2
Yr ymgynghoriad	1.3

Adran 2

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd.....	2.1
Ymateb Llywodraeth Cymru a'r ffordd ymlaen.....	2.2

Atodiadau

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

1.1 Cyflwyniad

Mae'r canllawiau ar ymateb i bobl sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad, pobl sydd wedi dod i gysylltiad â hunanladdiad a'r rhai y mae hunanladdiad wedi effeithio arnynt wedi'u hanelu at wasanaethau cymorth profedigaeth arbenigol, a'r rhai sy'n dod i gysylltiad â phobl yr effeithir arnynt gan farwolaeth sydyn neu anesboniadwy a allai fod yn hunanladdiad posibl. Nod y canllawiau hyn yw amlinellu beth fyddai'n cael ei ystyried yn ymateb o ansawdd da sydd ag adnoddau cynaliadwy, ac mae angen darparu'r ymateb hwn er mwyn sicrhau mynediad teg. Lluniwyd y canllawiau dwy ymdrech ar y cyd â'r unigolion a'r asiantaethau sydd yn y sefyllfa orau i weithredu arno.

1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid

Cafodd y canllawiau hyn eu llywio gan ddealltwriaeth o anghenion a phrofiadau pobl yng Nghymru sy'n byw gyda profedigaeth oherwydd hunanladdiad, yn dilyn ymarfer gwrandio lle'r aethpwyd ati i archwilio adegau yn ystod eu siwrnai drwy brofedigaeth pan maent yn rhyngweithio ag amrywiaeth o wasanaethau statudol a gwirfoddol (a elwir o hyn ymlaen yn 'adegau cyswllt'). Mae'r canllawiau'n nodi sut y gallwn ddarparu ymateb mwy cydymdeimladol a chynnig cymorth ymarferol ac emosiynol, yn ystod gwahanol gamau'r siwrnai honno.

Nod y canllawiau yw y bydd pob gwasanaeth profedigaeth arbenigol, neu asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau ar 'adegau cyswllt' arwyddocaol yn ystod y siwrnai drwy brofedigaeth ar ôl marwolaeth sydyn neu anesboniadwy a allai fod yn hunanladdiad, yn defnyddio'r canllawiau i nodi agweddau ar y gwasanaeth y gellir eu gwella neu eu datblygu er mwyn sicrhau'r ymateb mwyaf cydymdeimladol a defnyddiol i'r bobl o dan sylw.

Yn achos pobl y mae hunanladdiad posibl wedi effeithio arnynt, dylai comisiynwyr a chynllunwyr gwasanaethau drwy'r holl ranbarthau ddefnyddio'r canllawiau i sicrhau bod gwahanol agweddau ar y cymorth ar waith, a'u bod yn gynaliadwy. Bydd hyn yn gofyn am weithio ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, drwy fecanweithiau diogelu, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chynghreiriau eraill sydd wedi'u hariannu.

1.3 Yr ymgynghoriad hwn

Roedd yr ymgynghoriad yn agored o 28 Hydref 2022 tan 20 Ionawr 2023. Cafwyd 38 ymateb i'r ymgynghoriad gan unigolion ac amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau Iechyd, Awdurdodau Lleol ac amrywiaeth o sefydliadau'r trydydd sector. Mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn gyfartal o ran y sylwadau a gafwyd. Mae rhestr o'r ymatebwyr ar gael yn Atodiad A. Mae crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth

Cymru, ar gael yn Adran 2. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd drwy'r ymgynghoriad.

2. Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law

Cwestiwn 1: A yw'n glir ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn a pham y cawsant eu datblygu?

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo ei bod hi'n glir ar gyfer pwy roedd y canllawiau wedi'u darparu a'r rhesymau pam.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r canllawiau fod yn gliriach ynghylch sut maent yn berthnasol i'r bobl hynny sy'n dod i gysylltiad â hunanladdiad, sy'n cael eu heffeithio ganddo neu'n cael profedigaeth yn ei sgil, pan fo'r unigolyn o dan 25 oed.

Holodd nifer o'r ymatebwyr sut y byddai'r gwasanaeth cyswllt cenedlaethol yn rhyngweithio â darparwyr presennol ac a oedd y gwasanaeth wedi'i dargedu at bob oedran, ynteu dim ond y rhai dros 25 oed.

Teimlai un ymatebwr fod angen mwy o gefndir ynglŷn â pham mae'r canllawiau wedi'u datblygu ac y dylai fod iddynt nodau ac amcanion cliriach i amlinellu pa newidiadau sydd eu hangen a chan bwy. Roedd hefyd o'r farn y dylai'r canllawiau fanylu ar unrhyw newidiadau gofynnol i'r arfer presennol a nodi a oes dyletswydd statudol ar bartneriaid i ymateb.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o eglurder ynghylch sut y byddai'r gwasanaeth cyswllt profedigaeth cenedlaethol newydd yn cael ei strwythuro, o ble byddai'n cael ei adnoddau a sut byddai'n cael ei werthuso.

Cwestiwn 2: A ydych o'r farn fod y ddogfen ganllawiau'n cyfleu anghenion pobl sydd wedi dod i gysylltiad â hunanladdiad posibl, pobl y mae hunanladdiad posibl wedi effeithio arnynt neu bobl sydd wedi dioddef profedigaeth yn sgil hunanladdiad posibl?

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau yn cyfleu anghenion pobl sydd wedi dod i gysylltiad â hunanladdiad, pobl y mae hunanladdiad wedi effeithio arnynt neu bobl sydd wedi dioddef profedigaeth yn sgil hunanladdiad. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn croesawu cynnwys profiad y bobl berthnasol drwy'r digwyddiadau gwranddo ac yn teimlo bod hyn yn hanfodol i ddilysrwydd y canllawiau.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd digon o sylw i gefnogaeth i blant a phobl ifanc yn y canllawiau.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol ystyried ymhellach sut y bydd anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cefnogi. Er enghraifft, cymorth i'r rhai sydd ag anableddau dysgu, mynediad at linellau ffôn i bobl sydd ag amhariad ar y synhwyrâu, mynediad at wefannau i'r rhai a allai gael eu heithrio'n ddigidol a mynediad at wybodaeth a chefnogaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Saesneg. Roedd un ymatebwr hefyd yn teimlo bod angen i'r canllawiau roi ffocws cliriach ar ffydd a chrefydd.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd cael y canllawiau a'r wybodaeth gysylltiedig ar gael yn rhwydd mewn ar ffurf Hawdd ei Ddeall heb orfod gofyn amdano.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen i ddiben y gwasanaeth profedigaeth cenedlaethol fod yn gliriach, o ran a fydd yn cefnogi pawb a effeithir gan farwolaethau sydyn ac anesboniadwy neu ddim ond y marwolaethau sydyn ac anesboniadwy hynny a allai fod yn hunanladdiad posibl.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai mwy o gefnogaeth fod ar gael i bobl sy'n gweithio mewn proffesiynau lle maent yn fwy tebygol o fod yn dyst i hunanladdiad (e.e. gyrwyr trenau, gweithwyr iechyd meddwl, gweithwyr cymdeithasol, y rhai sy'n gweithio mewn carchardai neu ganolfannau cadw ac ati).

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen ymchwil i'r rhesymau pam mae pobl yn marw drwy hunanladdiad, yn enwedig o ran sgil-ffeithiau rhai meddyginiaethau presgripsiwn. Soniodd ymatebwyr eraill am sbardunau megis pen-blwydd neu ben-blwydd marwolaeth aelod o'r teulu yn ogystal â materion yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylid rhoi hyfforddiant ychwanegol i asiantaethau pwynt cyswllt fel y gallant roi cefnogaeth well i'r rhai y mae mwy o risg iddynt ladd eu hunain, er enghraifft pobl a gafodd brofedigaeth eu hunain yn ddiweddar yn sgil hunanladdiad.

Cwestiwn 3: A ydych o'r farn y bydd y cynigion a nodir yn y canllawiau yn gwella'r ffordd y gallwn gynorthwyo pobl sydd wedi dod i gysylltiad â hunanladdiad posibl, pobl y mae hunanladdiad posibl wedi effeithio arnynt neu bobl sydd wedi dioddef profedigaeth yn sgil hunanladdiad posibl?

Cododd rhai ymatebwyr bryder ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd i gael mynediad at gymorth addas ar hyn o bryd. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai fod dull cyson, sy'n rhagweithiol ac yn ystyriol o drawma, ar gael o fewn 24-48 awr ar ôl y farwolaeth i gynnig cefnogaeth ar unwaith ac yn barhaus.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn gefnogol i'r gwasanaeth cyswllt cenedlaethol arfaethedig, ond roeddent am gael rhagor o fanylion am sut y byddai'r gwasanaeth newydd hwn yn gweithio'n rhanbarthol ledled Cymru – gyda'r darparwyr presennol a gomisiynir, neu'r rhai a ariennir drwy grantiau, er mwyn i hwn ddod yn wasanaeth teg sy'n gyson ledled Cymru. Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo bod angen rhagor o fanylion ynghylch sut y byddai pobl a gafodd brofedigaeth oherwydd hunanladdiad posibl yn cael ei eu cefnogi drwy gynnig rhagweithiol a sut y byddai'r llwybr atgyfeirio yn gweithio.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen am fwy o arweiniad i gyflogwyr yn ogystal â darparu hyfforddiant o naws briodol i'r gweithlu.

Cwestiwn 4: A yw'r cyfrifoldebau ar draws holl feysydd y system wedi cael eu nodi'r glir yn y canllawiau?

Teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr fod y cyfrifoldebau ar draws pob maes o'r system wedi'u nodi'n glir yn y canllawiau.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd hi'n glir sut y byddai gwasanaeth cydymdeimladol, rhagweithiol, ystyriol o drawma yn cael ei ddarparu'n genedlaethol ac a fyddai unrhyw ddyblygu o ran y gwasanaethau presennol.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen i'r canllawiau fod yn gliriach o ran yr angen am gefnogaeth ar unwaith yn ogystal â chefnogaeth barhaus.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai materion yn ymwneud â hyfforddi'r gweithlu fod yn gliriach yn y canllawiau

Cwestiwn 5: A oes yna unrhyw fframweithiau, modelau neu bolisiau eraill y dyldid eu croesgyfeirio â'r canllawiau hyn, ond sydd ar goll ar hyn o bryd?

Rhoddodd yr ymatebwyr nifer o awgrymiadau wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y rheini'n cynnwys:

Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ar y Cyd

Dulliau Gweithredu sy'n Ystyriol o Drawma (cyfeirir at hyn eisoes yn y ddogfen)

Fframweithiau Cymhwysedd UCL (cyfeirir at y rhain eisoes yn y ddogfen)

Cefnogi staff iechyd meddwl ar ôl marwolaeth claf drwy hunanladdiad, Rhag 2022, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (cyhoeddwyd hwn pan oedd yr ymgynghoriad ar y gweill)

Dull Ysgol Gyfan

Proses 'postvention' y Samariaid gan gynnwys Cyswllt Teulu (Carchardai)

Egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol Gofal Cymdeithasol Cymru

Sgyrsiau Beth sy'n Bwysig Gofal Cymdeithasol Cymru

Gofal Iechyd Darbodus Llywodraeth Cymru

Roedd nifer o awgrymiadau eraill mewn perthynas â'r cwestiwn hwn, a rhai ohonynt yn cyfeirio at fecanweithiau ymateb lleol presennol drwy asiantaethau statudol, os amheuir hunanladdiad, a systemau cymorth a ddarperir drwy ymgysylltu amlsector. Mae gwaith yn mynd rhagddo trwy ffrwd waith gyfochrog i adeiladu ar y prosesau hyn a bydd eglurhad pellach yn cael ei ddarparu ynghylch cwmpas y canllawiau, a'r ffrydiau gwaith cysylltiedig.

Cwestiwn 6: A yw'n glir sut y gellir monitro'r modd y rhoddir y canllawiau ar waith, ac yn erbyn pa ganlyniadau, er mwyn dangos gwelliant?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo ei bod yn glir sut y bydd gweithrediad y canllawiau'n cael ei fonitro, ac yn erbyn pa ganlyniadau i ddangos gwelliant.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo, er bod canlyniadau wedi'u nodi, y dylai'r canllawiau fod yn gliriach ynghylch sut y bydd y rhain yn cael eu gweithredu a phwy sydd â'r

cyfrifoldeb cyffredinol am fewnbynnau ac allbynnau data a sicrhau eu bod yn cael eu dal yn gywir. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo y gallai cysylltu data a rhannu data fod yn broblematic.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod angen i'r canllawiau gynnwys canlyniadau clir yn ogystal ag allbynnau.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen gwneud y trefniadau llywodraethiant rhwng darparwyr lleol a chenedlaethol yn gliriach.

Cododd rhai ymatebwyr bryder am natur rhai o gwestiynau Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Edinburgh (WEMWS) gan eu bod yn teimlo y gallent sbarduno teimladau ac, o bosibl, achosi trawma pellach.

Cwestiwn 7: Hoffem glywed eich barn ynglŷn â'r effeithiau y byddai'r canllawiau ar gyfer ymateb i bobl sydd wedi dioddef profedigaeth yn sgil hunanladdiad, pobl sydd wedi dod i gysylltiad â hunanladdiad neu bobl mae hunanladdiad wedi effeithio arnynt yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Beth fydd yr effaith yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr adborth cadarnhaol ynglŷn a'r ffaith fod y canllawiau ar gael yn ddwyieithog.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod y ddarpariaeth gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu darparu'n ddwyieithog hefyd. Awgrymodd un ymatebwr y dylai hyn gynnwys darparu hyfforddiant dwyieithog i ddarparwyr gwasanaethau.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod y gwasanaeth cyswllt cenedlaethol yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog.

Cwestiwn 8: Esboniwch hefyd sut y credwch y gellir cryfhau'r canllawiau arfaethedig ar gyfer ymateb i bobl sydd wedi dioddef profedigaeth hunanladdiad, pobl sydd wedi dod i gysylltiad â hunanladdiad neu bobl mae hunanladdiad wedi effeithio arnynt, er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod pobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn cael cynnig cymorth yn eu hiaith gyntaf, yn enwedig fan fyddant yn teimlo'n fregus neu'n emosiynol. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod y gwasanaeth cyswllt cenedlaethol ar gael yn ddwyieithog.

Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r holl ddeunyddiau a gweithgareddau hyrwyddo wrth gefnogi pobl sy'n dioddef profedigaeth oherwydd hunanladdiad fod ar gael yn ddwyieithog.

Awgrymodd un ymatebwr y gallai ychwanegu Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg gael

ei gynnwys fel un o'r mesuryddion canlyniadau. Awgrymwyd y gallai hyn helpu sicrhau bod yr holl wasanaethau yn gweithio i alluogi pawb sy'n derbyn neu'n defnyddio'r gwasanaethau hyn i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai hefyd fod yn fodd i annog defnyddwyr a darparwyr eraill i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y maes hwn.

Cwestiwn 9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylai'r canllawiau gynnwys gwybodaeth am y meysydd canlynol:

- Mwy o sylw i rai dan 25 oed a chymorth ehangach i deuluoedd.
- Dylid nodi gwasanaethau ieuencid, ysgolion ac amgylcheddau dysgu eraill fel 'pwyntiau cyffwrdd'
- Mwy o sylw i effeithiau hunanladdiad ar broffesiynau sy'n debygol o gael eu heffeithio'n amlach gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol, y gweithlu iechyd meddwl, y sector gofal, gwasanaethau carchardai a'r gwasanaeth prawf.
- Mwy o gefnogaeth i deuluoedd pobl sydd wedi marw drwy hunanladdiad neu sydd wedi ceisio cyflawni hunanladdiad.
- Mwy o sylw i grefydd fel nodwedd warchoddedig.
- Mwy o sylw i'r rhai sydd ymhellach ymlaen yn y broses brofedigaeth yn ogystal â'r rhai sydd angen cymorth ar unwaith.
- Mwy o sylw i'r risg uwch o hunanladdiad ymysg y rhai sy'n dioddef profedigaeth oherwydd hunanladdiad.
- Mwy o sylw i rôl cyflogwyr ac ar ddatblygu dulliau gweithredu cydymdeimladol mewn gweithleoedd.
- Mwy o eglurder ynghylch sut y bydd pobl yn cael mynediad at y gwasanaeth cyswllt cenedlaethol, os nad ydyn nhw mewn cysylltiad â'r asiantaethau pwynt cyswllt cynnar (ee: gweithwyr iechyd proffesiynol yn y gweithle).
- Mwy o sylw i'r risg uwch o hunanladdiad ymysg pobl sy'n byw gyda salwch cronig.
- Roedd rhai o'r farn y dylid rhannu'r canllawiau yn dair adran wahanol, gan ganolbwyntio ar y tair cynulleidfa wahanol a nodwyd.

2.2 Ymateb Llywodraeth Cymru a'r Ffordd Ymlaen

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl ymatebion a gafwyd yn sgil yr ymgynghoriad. Derbyniwyd llawer o ymatebion meddylgar ac ystyriol, ac roedd cryn ymdrech ac ymchwil wedi'i wneud gan lawer o unigolion a sefydliadau a roddodd o'u hamser i ymateb.

Soniodd rhai ymatebwyr am eu profiadau personol o brofedigaeth drwy hunanladdiad. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r holl ymatebwyr am rannu eu barn mor agored ar bwnc mor anodd.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cenedlaethol ar gyfer y ddogfen ganllawiau bellach wedi ailymgynnull ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben ac wedi cytuno i droi eu sylw at fod yn grŵp gweithredu. Bydd y grŵp hwn yn gweithio i greu dogfen ddiwygiedig ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad, i'w chyhoeddi fel dogfen derfynol. Byddant hefyd yn gweithio ar weithredu'r ymateb o ran systemau a ddisgrifir yn y canllawiau, gan barhau i weithio ar y cyd â'r asiantaethau perthnasol, a chyda'r rhai sy'n arbenigwyr drwy brofiad.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Rhif	Dienw le/Na	Sefydliad/Ar ran
1.	Na	Aelod o'r cyhoedd
2.	le	Dienw
3.	Na	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
4.	le	Dienw
5.	le	Dienw
6.	le	Dienw
7.	le	Dienw
8.	le	Dienw
9.	le	Dienw
10.	Na	Aelod o'r cyhoedd
11.	Na	PAPYRUS
12.	le	Dienw
13.	Na	Aelod o'r cyhoedd
14.	le	Dienw
15.	Na	Aelod o'r cyhoedd
16.	le	Dienw
17.	le	Dienw
18.	le	Dienw
19.	Na	Gofal Cymdeithasol Cymru
20.	Na	2Wish
21.	Na	Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
22.	Na	Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain
23.	Na	Dienw
24.	Na	Cyngor Sir Powys
25.	Na	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
26.	Na	Llamau
27.	Na	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
28.	Na	Grŵp Cyflawni 'Beth am Siarad â Fi' Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
29.	Na	LiSS - Living in Suicide's Shadow – Gorllewin Cymru
30.	Na	Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
31.	Na	Samariaid Cymru
32.	Na	Eglwys Bresbyteraidd Cymru

33.	Na	Grŵp Llywio Gwent ar gyfer Hunanladdiad a Hunan-niweidio
34.	Na	Coleg Brenhinol Seiciatryddion Cymru a'r Ganolfan Gweithredu Iechyd Meddwl y Cyhoedd (PMHIC)
35.	Na	Hafan Cymru
36.	Na	Anabledd Dysgu Cymru
37.	Na	Iechyd Cyhoeddus Cymru
38.	Na	Diabetes UK Cymru